

GUIDE
DOGS



Cymru

Gweithredu leuenctid: Prosiect y Stori

Cynlluniau ar gyfer sesiynau a gweithgareddau



Cynnwys

Ynghylch Prosiect y Stori	3
Sut i ddefnyddio'r pecyn	3
Adran 1. Y mater dan sylw	4
Pam fod straeon mor bwysig?	4
- Stori heb synnwyr	5
- Adrodd Straeon	6
Siarad am lyfrau	8
Gweithgareddau creadigol – dewisol	10
- Nôdau llyfr cornel tudalen	10
- Gweithgareddau celf mewn ogofau	10
Adran 2. Cynlluniwch eich gweithredu cymdeithasol	11
Ymgyrchwch dros CustomEyes® drwy ysgrifennu at awduron a chyhoeddwyr	13
Adran 3. Gwneud Gwahaniaeth	14
Adran 4. Adolygiad	15
Adran 5. Beth nesaf?	15

Gwnewch wahaniaeth

Ynghylch Prosiect y Stori

Mae Prosiect y Stori yn brosiect gweithredu cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc sydd rhwng 4 ac 14 oed mewn ysgolion neu grwpiau cymunedol. Y bwriad yw cynorthwyo'ch grŵp neu'ch dosbarth i ddeall pwysigrwydd straeon a bod modd i bobl ifanc, gan gynnwys y rheini sydd â nam ar eu golwg neu ddyslecsia gyrchu llyfrau. Gall eich grŵp ddysgu am CustomEyes® ac yna defnyddio'u gwybodaeth i weithredu a gwneud gwahaniaeth i'w cyfoedion drwy godi ymwybyddiaeth ac arian ar gyfer ein gwasanaeth CustomEyes®. Bydd y sesiynau a'r gweithgareddau cynllunio yn cymryd hyd at bedair awr ond nid yw hyn yn cynnwys yr amser fydd ei angen ar eich grŵp i gynnal digwyddiad o'i ddewis.

Trwy brosiect y stori, mae cyfle i ddysgu ynghylch:

- Nam ar y golwg a sut y mae hynny'n effeithio ar fywydau rhai plant a phobl ifanc
- Sut y mae straeon wedi ffurfio'n bywydau
- Pa mor bwysig yw hi i allu cyrchu straeon a llyfrau
- Sut i weithio ar y cyd fel rhan o dîm
- Sgiliau cynllunio
- Bod modd gwneud gwahaniaeth i bobl ifanc eraill drwy rannu stori CustomEyes®



Mae'n wych. Gallaf ddarllen llyfrau Harry Potter fel fy ffrindiau. Gallaf ddarllen i fi fy hun cyn mynd i'r gwely yn hytrach na bod Mam yn gorfod darllen i mi.

Defnyddiwr CustomEyes® ifanc

Sut i ddefnyddio'r pecyn

Mae'r pecyn hwn wedi'i gynllunio i gefnogi gweithgaredd cymdeithasol a dysgu mewn ysgolion a grwpiau ieuenctid. Gallwch ddewis o nifer o weithgareddau ac mae yna gynlluniau ar gyfer sesiynau sy'n ffurfio fframwaith ar gyfer cynllunio prosiect eich grŵp. Rydym hefyd wedi ychwanegu rhai syniadau creadigol er mwyn i chi gael hwyl. **Mae'r adnoddau ym Mhecyn Adnoddau y Prosiect Stori.**

Gall Prosiect Stori gael ei ddefnyddio i

gwrdd ag anghenion y rhaglenni canlynol:

Rhaglenni Dinasyddiaeth a Chyfoethogi	Gweithredu cymunedol/gwirfoddol a rôl elusennau yn y gymdeithas.
Girlguiding yn y DU	Thema Gweithredu
Sefydliad y Sgowtiaid	Bathodyn Effaith Cymunedol
SMSC/PSHE	Addysg Gymdeithasol, Foesol, Ysbrydol a Diwylliannol mewn ysgolion
Rhaglenni Gweithredu Cymdeithasol	Cefnogi elusen
Y Pony Club	Bathodyn codi arian
Sefydliadau Iwniform ar gyfer yr Ieuentid Y Boys Brigade Y Girls Brigade Y Jewish Lads and Girls Brigade Cadetiaid y Fyddin Cadetiaid Tân Cadetiaid Morol Cadetiaid yr Awyrlu Brenhinol Cadetiaid Gwirfoddol yr Heddlu Ambiwlan Sant Ioan	Gweithredu Cymunedol/Cymdeithasol

Adran 1. Beth yw'r mater sydd o dan sylw?

Bwriad yr adran hon yw i'ch grŵp feddu ar ddealltwriaeth am pam y mae straeon yn bwysig a sut y mae gwasanaeth CustomEyes® Guide Dogs/Cŵn Tywys yn cefnogi pobl sydd â nam ar eu golwg drwy newid maint print cyffredin llyfrau a'u newid yn fersiynau print bras, yn ôl galw'r unigolyn.

Mae'n costio oddeutu £250 i gynhyrchu llyfr **CustomEyes®** ond codir y pris manwerthu a argymhellir yn unig ar ddarllenwyr, eu teuluoedd neu eu hysgol. Heb y gwasanaeth, ni fyddai modd iddynt ddarllen yr un llyfrau â'u ffrindiau a byddent o bosib yn ei chael yn anodd i ddal fyny ag eraill yn y dosbarth.

Gall eich grŵp ein cynorthwyo i ddatgelu byd o lyfrau a mwynhad wrth ddarllen i bobl ifanc sydd â nam ar eu golwg neu ddyslecsia.

Pam fod straeon yn bwysig?

Gallwch ddewis gwneud un neu'r ddau weithgaredd.

Gweithgaredd 1:

[Stori heb synnwyr i dorri'r iâ](#) – 10 munud er mwyn torri'r iâ a fwriadwyd ar gyfer grwpiau ieuentid.

Gweithgaredd 2:

[Adrodd Straeon](#) – Sesiwn 1 awr o hyd ar hanes adrodd straeon. Dolenni'r Cwricwlwm: Saesneg/Hanes

Stori Heb Synnwyr

Bwriad: Sesiwn gyflym i dorri'r iâ a fydd yn rhoi ymwybyddiaeth sylfaenol i'ch grŵp o bwysigrwydd adrodd straeon.

Adnoddau: Copïau o'r Rhestr Stori Heb Synnwyr o'r pecyn adnoddau, peniau.

Cyflwyniad

Gall y grŵp naill ai sefyll neu eistedd mewn cylch. Rhowch gopi o'r Rhestr Stori Heb Synnwyr i bawb.

Esboniwch y byddant yn ysgrifennu un rhan o'u stori ar y darn papur ac yna'n plygu'r papur er mwyn gorchuddio'u geiriau ac yn ei basio ymlaen i'r person sydd ar y chwith iddynt. Gallwch roi pwnc i'r grŵp fel straeon am fwyd neu chwaraeon ac ati. Ar gyfer grwpiau hŷn, gallwch ehangu'r gweithgaredd i ysgrifennu brawddeg gyfan. Gwnewch yr holl beth yn gyflym fel bod neb yn meddwl gormod am eu hateb.

- Yn y blwch cyntaf, bydd angen iddynt ysgrifennu pwy yw'r person sydd yn y stori; gallai fod yn hwy eu hunain, athro, ffrind, rhiant, person enwog neu'n enw sydd wedi cael ei wneud fyny. Bydd angen plygu'r papur a phasio'r rhestr ymlaen i'r person sydd ar y llaw chwith.
- Yn yr ail flwch, **beth** maent yn gwneud.
- Plygu a phasio i'r chwith.
- Yn y trydydd blwch, **sut**.
- Plygu a phasio i'r chwith.
- Yn y pedwerydd blwch, **lle** y maent
- Plygu a phasio i'r chwith.
- Yn y pumed blwch, **pryd**
- Plygu a phasio i'r chwith.
- Yn y chweched blwch, **pam**
- Plygwch a phasiwch at y person sydd ar y llaw chwith, bydd pawb yna'n agor ac yn darllen y stori y maent wedi ei dderbyn. Gall y sawl sydd am wneud hynny, ddarllen y stori'n uchel.

Gofynnwch i'r grŵp pa emosiynau yr oeddent yn eu teimlo wrth iddynt glywed y straeon. A oeddent yn credu eu bod yn ddoniol, yn drist ac ati? Esboniwch y gall bob un ohonom adrodd straeon sy'n sbarduno ein dychymyg a'n hemosiynau. Gofynnwch i'r grŵp a ydynt yn teimlo fod straeon yn bwysig? Trafodwch eu hatebion.

Gallwch yn awr symud ymlaen at y gweithgaredd stori neu ddechrau siarad ynghylch pwysigrwydd llyfrau i bobl ifanc yn y sesiwn [‘Siarad am lyfrau’](#).

Adrodd Straeon

Amser: Un awr

Bwriad: Deall pam ein bod yn adrodd straeon, hanes adrodd straeon a sut yr ydym, dros yr amseroedd wedi datblygu ffyrdd newydd o adrodd straeon.

Adnoddau: Llinell amser a chardiau hanes adrodd straeon. Bydd angen eu torri allan o'r pecyn adnoddau.

Cyflwyniad

Esboniwch i'ch grŵp fod yr arfer o adrodd straeon wedi dechrau fel modd i ddod â ni oll ynghyd er mwyn rhannu gwybodaeth benodol. Gallai fod wedi bod yn ffordd o ddysgu rhywbeth am y byd sydd o'n hamgylch neu wers allai achub bywyd. Mae straeon yn haws i'w cofio na ffeithiau. Enghraifft o hyn yw stori Icarus a hedfanodd yn rhy agos at yr haul. Mae'n stori gofiadwy sy'n gymorth i ni ddeall ein cyfyngiadau'n hunain.

Trafod

Sut ydym yn adrodd straeon? Gofynnwch i'ch grŵp alw atebion allan a rhowch nhw ar y bwrdd. Faint o wahanol ffyrdd y gallant feddwl amdanynt?

Awgrymwch dechnoleg a gwahanol fathau o straeon, ffeithiol neu ffuglen. Gallai enghreifftiau gynnwys: teledu, llyfrau, llyfrau sain, papurau newydd, ffilmiau, gwersi, dramâu, radio, pod ddarllediadau, cerddoriaeth, cân, dawns, celf, cartwnau, ffotograffau, gemau, gwasanaeth, sgwrs.

Gwaith Grŵp

Defnyddiwch linell amser hanes a'r cardiau o'r pecyn adnoddau. Esboniwch i'ch grŵp y gallwn amlinellu hanes y gwahanol ffyrdd y mae pobl wedi eu datblygu i adrodd straeon. Gofynnwch i'ch grŵp roi'r digwyddiadau rhannu straeon (cardiau) yn eu trefn hanesyddol. Gallech wneud hyn yn weithgaredd tîm, Anogwch eich timau i drafod eu hatebion.

Ewch trwy'r atebion fel grŵp. A oedd rhai ohonynt yn eu synnu?

Atebion yn eu trefn:

Adrodd straeon ar lafar – Dyma ddaeth gyntaf wrth i ddynolryw ddatblygu sgiliau cyfathrebu ac iaith oddeutu 350,000 o flynyddoedd yn ôl.

Darluniau mewn ogofau – Mae'r darluniau ogofau cynharaf i'w darganfod yn dyddio yn ôl i 30,000 o flynyddoedd yn ôl.

Y stori gyntaf i'w hargraffu - Gilgamesh – 700 CC – cerfiwyd ar bileri cerrig bron i 3,000 o flynyddoedd yn ôl.

Dramâu Groegaidd – 550 CC oddeutu 2,500 o flynyddoedd yn ôl.

Y llyfr hynaf i'w argraffu sydd wedi goroesi – Llyfr Bwdhaidd, y Diamond Sutra, sy'n llawn dysgeidiaeth grefyddol a grëwyd yn y flwyddyn 868 gan ddefnyddio testun a gerfiwyd i mewn i flociau o bren (fel stamp llun) dros 1,000 o flynyddoedd yn ôl.

Tapestri Bayeux – dynodi hanes y goresgyniad Normanaidd a brwydr Hastings yn 1066. Crewyd oddeutu deng mlynedd wedi'r frwydr yn 1076.

Braille – Enwir Braille ar ôl y sawl a'i creodd; Louis Braille, Ffrancwr a gollodd ei olwg yn sgil damwain yn ystod ei blentyndod. Dyfeisodd Braille pan oedd yn 15 oed a phan oedd yn 20 oed yn 1829, cynhyrchodd ei lyfr Braille cyntaf, bron i 200 mlynedd yn ôl.

Y ffilm gyntaf – Cafodd y ffilmiau cyntaf eu cynhyrchu a'u dangos yn 1895 gan y brodyr Lumière dros 100 mlynedd yn ôl.

Y gêm stori gyfrifiadurol gyntaf – Colossal Cave Adventure 1976.

Blogiau cyfryngau cymdeithasol – Crëwyd y blogiau cyntaf yn 1999.

Trafodwch

Dyfodol adrodd straeon. A allant feddwl am ffyrdd newydd y gallwn fwynhau straeon yn ystod y 100 mlynedd nesaf?

Yn Llawn

Darllenwch y stori hon i'r grŵp.

Ddydd Sadwrn, doedd mam Alice ddim yn teimlo'n hwylus felly gofynnodd iddi fynd i'r siop i ôl rhai pethau iddi. Gofynnodd iddi nôl llaeth ar gyfer eu brecwast, papur newydd, gan fod stori ddiddorol am ei hysgol ynddo a phecyn o'i hoff felysion. Aeth allan, yn anfoddog yn y gwynt a'r glaw i'r siop a phrynu pob dim. Wedi iddi gyrraedd adref, dywedodd ei mam, am iddi fod mor dda y gallai ddewis rhywbeth o'r pecyn.

Darllenwch y ffeithiau canlynol. **Rhestr siopa Jo: bara, cylchgrawn a bar o siocled.**

Ewch o amgylch yr ystafell a gofynnwch i bob un o'r grŵp ddweud beth yw ei hoff ffilm.

Nawr, gofynnwch iddynt geisio cofio enwau'r bobl a beth wnaethant brynu yn y siop. Pa mor llwyddiannus oeddent? A oeddent yn gallu cofio'r enwau? Pam, tybed roeddent yn cofio mwy o restr un person na'r llall? A gawsant eu synnu â'r canlyniad?

Esboniwch mai dyma un rheswm pam fod straeon mor bwysig ac wedi esblygu gyda ni. Mae pobl yn defnyddio'r dull o adrodd stori fel ffordd i gofio rhestrau hir o bethau. Maent yn creu stori allan ohonynt.

Siarad am Lyfrau

Amser: 45 munud

Bwriad: Gweithgaredd er mwyn canfod pam fod angen llyfrau print bras ar rai plant a phobl ifanc a chyfle i edrych ar bwysigrwydd llyfrau a darllen.

Adnoddau:

- Copïau o daflen weithgaredd CustomEyes® o'r pecyn adnoddau
- Cyfrifiadur/taled all gyrchu'r [efelychydd cyflwr llygad](#) ar PowerPoint. Gallwch lawr-lwytho hwn o flaen llaw.
- Efallai yr hoffech ofyn i'ch grŵp ddod â'u hoff lyfrau i mewn gyda hwy.
- [Fideo 3-munud](#): Mae Lauren, aelod o CustomEyes® yn adolygu Blob gan David Walliams

Deiliant: Trwy drafodaeth, bydd eich grŵp wedi siarad am bwysigrwydd straeon a darllen, sut allai cael nam ar y golwg effeithio ar y modd y gall person ifanc gyrchu byd cyffrous llenyddiaeth a sut allai hyn gael effaith ar eu haddysg.

Trafod

Gofynnwch i'r bobl ifanc beth yr ydym yn ei olygu wrth nam ar y llygad. Ydi unrhyw un yn gwybod? Ydych chi erioed wedi clywed fod gan ambell berson gyflyrau ar y llygad sy'n effeithio ar eu gallu i weld ac nad oes modd cywiro hyn trwy wisgo sbectol?

Er mwyn dangos i'ch grŵp yr hyn yr ydym yn ei olygu, edrychwch ar wahanol gyflyrau'r llygad a sut y gallant effeithio ar olwg pobl trwy ddefnyddio'r [efelychydd cyflwr llygad](#). Gofynnwch i'r grŵp sut allai hyn effeithio ar weithgareddau dyddiol person tebyg i wneud eu hunain yn barod ar gyfer yr ysgol, coleg, gwaith neu fynd i'r siop.

Gofynnwch i'r grŵp beth yw eu hoff ddiddordeb a sut allai peidio gallu gweld yn dda effeithio ar eu gallu i wneud y gweithgaredd.

Esboniwch fod pobl sydd â nam ar eu golwg am gael eu cynnwys a chael eu trin yn gydradd. Gofynnwch i'r bobl ifanc awgrymu addasiadau/newidiadau allai fod angen eu gwneud i'r gweithgareddau y maent yn hoffi eu gwneud er mwyn gallu cynnwys person ifanc sydd â nam ar ei olwg.

Gwaith Grŵp

Mewn grwpiau llai, anogwch eich pobl ifanc i siarad am eu hoff lyfrau (maent wedi dod i mewn gyda hwy.) Rhowch funud yr un iddynt i ddweud beth maent yn eu hoffi a'r hyn y mae'r llyfr yn ei olygu iddynt.

Gofynnwch iddynt feddwl am sut fyddent yn teimlo os na fyddent yn gallu darllen eu llyfr os na fyddai eu golwg yn ddigon da. A allant awgrymu unrhyw syniadau creadigol ar sut all person ifanc sydd â nam ar ei olwg gyrchu llyfrau? Gallai rhai awgrymiadau fod yn lyfrau sain, print bras, Braille, chwyddwydrau a gwirfoddolwyr darllen. Oes ganddynmt unrhyw syniadau newydd? Rhannwch hwy gyda'r grŵp cyfan.

Rhowch daflen gweithgaredd CustomEyes® o'r pecyn adnoddau i bob grŵp. Mae'n dangos rhai o'r ffontiau a'r meintiau gwahanol y mae plant a phobl ifanc sydd â nam ar eu golwg eu hangen. Mewn grwpiau, trafodwch eu teimladau wedi iddynt weld yr enghreifftiau hyn. Sut maent yn teimlo? A gawsant eu rhyfeddu gan y gost (cyfartaledd o £250 ar gyfer pob llyfr)? Sut fyddai hynny'n cymharu â chost consôl gemau neu lyfr maint ffont cyffredin?

Fideo

Os allwch gyrchu YouTube, efallai y byddwch am ddangos ein fideo o Lauren, person ifanc sydd â nam ar ei golwg yn siarad am CustomEyes®. Defnyddiwch y [ddolen](#) neu chwiliwch am y fideo ar YouTube drwy deipio 'Lauren and CustomEyes'. Fel arall, gofynnwch i'r grŵp ofyn am ganiatâd i edrych arno gartref.

Y camau nesaf

Gofynnwch i'r grŵp a fyddent yn hoffi gwneud rhywbeth i gefnogi CustomEyes® a phobl ifanc sydd â nam ar eu golygon. Os byddant yn dweud 'byddem,' gadewch iddynt wybod mai'r cam nesaf yw cynllunio sut y maent am helpu.

NODWCH: Efallai y byddwch yn dymuno [cynllunio](#) yn syth wedi'r sesiwn.

Dod i wybod rhagor am Guide Dogs/Cŵn Tywys

Gosodwch dasg ymchwil ar-lein i'r grŵp er mwyn dod i wybod rhagor am y gwahanol wasanaethau y mae Guide Dogs/Cŵn Tywys yn eu darparu a sut y maent yn cynorthwyo pobl.

Gallech wahodd Siaradwr Guide Dogs/Cŵn Tywys i ymweld â'r grŵp a rhannu eu stori. Gallai'r siaradwr fod yn berchennog ci tywys, yn berson sy'n ddall neu sy'n rhannol ddall, yn wirfoddolwr neu yn aelod o'r staff – mae hyn yn ddibynnol ar argaeledd siaradwyr yn ogystal â'r hyn y mae'ch grŵp yn gobeithio ei gael o'r sgwrs.

Trefnwch eich sgwrs ar-lein ar www.guidedogs.org.uk/speaker

Edrychwch ar gynlluniau eraill ar gyfer sesiynau ar www.guidedogs.org.uk/learning

Gweithgraeddau creadigol – dewisol

Nôdau llyfr cornel tudalen

Amser: 20 i 30 munud

Byddwch angen:

- Yr adnodd Nôd llyfr cornel tudalen sydd yn y pecyn sy'n rhoi cyfarwyddiadau gam wrth gam ar sut i greu Nôdau llyfr.
- Darn o gerdyn sgwâr neu ddarn trwchus o bapur ar gyfer pob aelod o'r grŵp.
- Peniau, pensiliau, sisyrnau plant, darnau ychwanegol o gerdyn/papur a deunyddiau addurno i bersonoli'r Nôd llyfr.

Am gymorth gyda'r plygiadau origami ac am syniadau addurno, ewch i You Tube ac edrychwch am diwtorials "corner bookmark".

Gweithgaredd celf mewn ogofau

Amser: 30 munud

Byddwch angen:

- Rholyn o bapur brown
- Siarcol a neu bensiliau lliw brown-ddu a choch neu liwiau golau
- Paent du, brown a choch (dewisol)
- Menyg bychan heb latex (dewisol)
- Enghreifftiau digidol neu wedi eu hargraffu o gelf mewn ogofau

Anogwch y grŵp i edrych ar ddelweddau o gelf mewn ogofau a cheisiwch ddyfalu sut y cawsant eu creu. Gofynnwch iddynt ddefnyddio'r rholyn o bapur brown er mwyn rhoi cynnig arni gan ddefnyddio gwahanol dechnegau. Gallech ddefnyddio darn mawr o bapur, digon i roi ar wal a chreu murlun grŵp.

A allant adrodd stori trwy eu darluniau?

Adran 2. Cynllunio eich gweithredu cymdeithasol

Amser: Dwy awr dros ddwy sesiwn

Bwriad: Bwriad yr adran hon yw rhoi'r sgiliau i'r grŵp i ddewis a chynllunio digwyddiad neu weithgaredd. Byddant yn dynodi'r adnodd sydd ei angen arnynt er mwyn dechrau eu hymgyrch codi ymwybyddiaeth a/neu godi arian.

Adnoddau: Papur, peniau, taflen cynllunydd pos o'r pecyn adnoddau – un rhwng pedwar o bobl.

Sesiwn Un – Cynllunio (1 awr)

Cyflwyniad

Yn y gweithgaredd nesaf, rydym am i chi feddwl am sut allech godi arian ar gyfer CustomEyes® a/neu godi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd llyfrau i blant a phobl ifanc sydd â nam ar eu golwg.

Trafod

Anogwch eich grŵp i drafod.

- Beth yw codi arian? Casglu arian ar gyfer achos da drwy gynnal digwyddiadau a chasgliadau.
- Beth yw codi ymwybyddiaeth? Sôn am fater, angen neu achos ag eraill drwy roi gwybodaeth iddynt.

Dechreuwch gyda'r holl grŵp a rhowch y penawdau canlynol ar y bwrdd i'w cynorthwyo: **Adrodd Straeon, llyfrau, codi arian, codi ymwybyddiaeth, CustomEyes®.**

Gofynnwch iddynt eistedd yn dawel am dair munud er mwyn meddwl am syniadau am sut allant helpu. Pwy allent siarad â hwy a pham? A allent gynnal digwyddiad darllen neu ddiwrnod adrodd straeon neu wasanaeth? Rhai syniadau yn unig yw'r rhain.

Gofynnwch iddynt ysgrifennu eu hoff syniad mewn un neu ddau air. Gofynnwch iddynt sefyll ac i bawb sydd am godi arian symud i un ochr o'r ystafell a phawb sydd am godi ymwybyddiaeth i symud i'r ochr arall. Yna, rhannwch hwy yn dimau llai sydd â syniadau tebyg.

Lawr-lwythwch ein poster [A-Z syniadau codi arian](#) am syniadau ar gyfer codi arian.

Os hoffai'ch grŵp ysgrifennu at awdur neu gyhoeddwr i ofyn iddynt gefnogi CustomEyes®, mae gennym [arweiniad](#) ar bwy y dylent ysgrifennu atynt a thempled llythyr y gallwch ei ddefnyddio yn eich pecyn adnodau. Gallech ddefnyddio'r llythyr fel man cychwyn ar gyfer syniad am weithred greadigol, gymdeithasol sy'n llawer mwy.

Yn Saesneg Gwaith Grŵp

Gofynnwch iddynt ddefnyddio'r daflen cynllunyd pos er mwyn gwneud cynllun ar gyfer yr hyn allai wneud gwahaniaeth. Dylent ddechrau trwy ysgrifennu eu henwau ar y daflen.

Wrth iddynt ddatrys pob cliw, gallant ysgrifennu'r rhan honno o'u cynllun. Os oes angen help ar eich timau i gynllunio, mae cymorth ger pob ateb.

Atebion

1. **Aim** (llun o darged) – Gofynnwch i'r grŵp beth maent wedi dewis ei wneud ar gyfer eu digwyddiad – ai codi ymwybyddiaeth neu arian?

- 2. Ideas/objectives** (llun o fwlb golau) – Gofynnwch i'r grŵp beth oeddent am ei wneud. Mae angen iddynt ddewis syniad un aelod o'u fîm. Gallai fod yn ddarllenathon, yn gyfnewid llyfrau, adrodd stori ger dân agored, yn ras ddarllen gyfnewid, yn weithdy barddoniaeth/darllen, yn glwb llyfrau neu'n ddrama. Beth yw'ch syniad chi ar gyfer digwydiad darllen?
- 3. Equipment** (Llun o fag a llyfrau) – Gofynnwch i'r grŵp beth sydd ei angen arnynt ar gyfer eu digwydiad?
- 4. List** (llun o restr wirio) Gofynnwch pa dasgau sydd angen eu gwneud cyn y digwydiad a phwy fydd yn eu gwneud?
- 5. Safety** (Llun o gôn traffig ac arwydd) Gofynnwch sut allant sicrhau fod y digwyddiad yn ddiogel?

Crynodeb

Esboniwch i'r timau eu bod wedi cwblhau eu cynllun. Yn y sesiwn nesaf, byddant yn rhannu eu cynllun â thimau eraill.

Sesiwn dau – y camau nesaf (un awr)

Bwriad: Gwneud penderfyniad teg fel grŵp ynghylch pa gynllun i'w ddefnyddio.

Adnoddau: Cynllunio templed ar gyfer athrawon ac arweinwyr yn y pecyn adnoddau. Cynlluniau'ch fîm, adnoddau pleidleisio os oes angen.

Cyflwyniad

Unwaith bydd eich timau wedi cwblhau eu cynlluniau, bydd angen iddynt wrando ar syniadau ei gilydd er mwyn dewis un neu ddau gynllun i'w gwneud.

Gweithgaredd

Gallech wneud hyn fel pitch ar ffurf dragon's dens neu gallech eu rhoi ar y wal er mwyn i bawb eu gweld.

Trafod

Anogwch eich grŵp i drafod y gwahanol gynlluniau gan gytuno arnynt. Efallai bydd angen pleidlais ac mi allech ddewis mwy nag un cynllun.

Crynodeb

Nawr fod eich grŵp wedi cytuno ar eu cynlluniau, gallwch ddechrau eu gweithredu. Cytunwch ar ddyddiad ar gyfer y digwyddiad, gweithiwch allan pa dasgau fydd angen eu gwneud a phwy fydd yn eu cwblhau. Meddyliwch sut allwch arddangos tystiolaeth o waith caled y grŵp. Beth allant eu mesur?

Esbonowch i'r grŵp beth fyddant yn ei wneud y tro nesaf y byddwch yn cwrdd.

Ymgyrch ar gyfer CustomEyes® drwy ysgrifennu at awduron a chyhoeddwyr

Bwriad ysgrifennu llythyr at awduron a chyhoeddwyr yw eu hannog i gefnogi CustomEyes®. Mae rhai yn gwneud hyn yn barod ac mae'n torri'r gost a'r amser yn sylweddol i ddarllenwyr CustomEyes®. Cofiwch i ni ddweud mai £250 yw pris cyfartalog cynhyrchu llyfr unigryw. Yn anffodus, mae angen anogaeth ar rai a thrwy ysgrifennu atynt i sôn am eich hoff lyfr (y maen nhw yn ei gyhoeddi) a phwysigrwydd CustomEyes® i bobl ifanc sydd â nam ar eu golwg neu ddyslecsia, y gobaith yw y byddant yn ein cefnogi.

Gallech ddefnyddio'r llythyr fel ffordd greadigol o godi ymwybyddiaeth neu fel ffordd o rannu llwyddiant eich grŵp ar ôl eich digwyddiad.

Mae'r awduron a'r cyhoeddwyr canlynol eisoes yn ein cefnogi drwy ddarparu llawysgrifau: **David Walliams, Michael Morpurgo and Hachette, Usborne, Simon & Schuster, OUP, Child's Play, Pearson.**

1. Pan fyddwch yn dewis llyfr, gwiriwch nad yw'r awdur/cyhoeddwr eisoes yn ein cefnogi.
2. Edrychwch ar ein templed llythyr yn yr adran adnoddau. Gallwch ei ddefnyddio er mwyn dechrau.
3. Pan fyddwch yn ysgrifennu'ch llythyr, byddwch yn ofalus o'r iaith yr ydych yn ei defnyddio a'r hyn yr ydych yn ei ddweud. Mae angen annog cydweithrediad drwy ddefnyddio'r wybodaeth yr ydych, gobeithio wedi ei hennill er mwyn eu darbwylo i gefnogi'r gwasanaeth.
4. Cymerwch eich hamser i ddarllen y llythyr.
5. Gofynnwch i rywun wirio cywair y llythyr cyn i chi ei anfon
6. Dewch o hyd i'r cyfeiriad a'i anfon atynt drwy'r post.
7. Gadewch i ni wybod os byddant yn eich ateb.

Adran 3. Gwneud gwahaniaeth

Amser: Defnyddiwch yr amseriadau yn y cynlluniau.

Bwriad: Bydd eich grŵp yn defnyddio'u cynlluniau er mwyn cynnal y digwyddiadau.

Adnoddau: Eich cynllun a'r offer a restrir yn eich cynllun. Os oes eu hangen, y ffurflenni "Rwy'n codi arian" a'r templed llythyr sydd yn eich pecyn adnoddau.

Rydych wedi cynllunio yr hyn yr ydych yn mynd i'w wneud ond cyn i chi ddechrau, dilynwch y canllawiau hyn. Sicrhewch eich bod yn ddiogel. Os yw'ch grŵp o dan 16 oed, ni allant:

- Godi arian heb ganiatâd gan rieni/warchodwyr
- Prynu neu werthu tocynnau raffl neu loteri
- Casglu arian o ddrws i ddrws, yn y stryd neu ofyn i ddieithriaid eu noddi
- Cynnal digwyddiad codi arian eu hunain – mae'n rhaid i oedolyn (dros 18 oed) fod yn bresennol
- Gwerthu alcohol

Os ydych yn penderfynu defnyddio lleoliad, gwiriwch ei fod wedi ei yswirio, oes angen yswiriant atebolrwydd cyhoeddus arnoch? Ni all Guide Dogs/Cŵn Tywys dderbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled, niwed neu anaf gennych chi nac unrhyw un arall o ganlyniad i gyfranogiad yn y digwyddiad. Am, ragor o wybodaeth ynghylch cynllunio digwyddiad, ewch i'r dudalen [Cadw'n Gyfreithiol](#).

Ar y dydd, sicrhewch eich bod yn gwneud eich gwiriad risg cyn i chi ddechrau a thrwy gydol y dydd, sicrhewch fod pawb yn iawn. Cofiwch osgoi gwrthdaro pan fyddwch allan.

Pob lwc gyda'ch digwyddiad!

Adran 4. Adolygiad

Sut ddaethoch ymlaen?

Amser: 30 munud

Adnoddau: Taflen Adolygu

Cyflwyniad

Esboniwch i'r grŵp ei fod yn bwysig, wedi i unrhyw ddigwyddiad gael ei gynnal i edrych ar yr hyn aeth yn dda a ddim mor dda fel y bydd modd iddynt y tro nesaf ddefnyddio eu sgiliau newydd yn llwyddiannus.

Defnyddiwch y daflen adolygu yn y pecyn adnoddau er mwyn mynd trwy'r cwestiynau canlynol:

- A aeth eich prosiect yn ôl yr hyn gafodd ei gynllunio?
- Beth ydych wedi ei ddysgu?
- Sut y mae'ch prosiect wedi bod o gymorth?
- Sut ydych yn teimlo am eich llwyddiant?
- A fydddech yn newid unrhywbeth y tro nesaf?

Trafodwch gamau nesaf pob person. Efallai eu bod am wneud prosiect arall neu wirfoddoli. Dathlwch eich llwyddiant a rhannwch stori'r grŵp. Rhowch ddiolch mawr iddynt oddi wrthym ni i gyd yn Guide Dogs/Cŵn Tywys.

Adran 5. Beth sydd nesaf

Er mwyn derbyn tystysgrif ar gyfer gweithredu cymdeithasol, mae angen i ni wybod sut wnaeth eich grŵp, yr hyn a wnaethant a sut a byddwn yn anfon tystysgrifau atoch. Os llwyddodd y grŵp i godi dros £250, gadewch i ni wybod ac mi fyddwn hefyd yn anfon rhodd atynt i ddweud diolch. E-bostiwch learning@guidedogs.org.uk neu ffoniwch 0345 143 0192.

Talwch unrhyw arian i mewn wedi'r digwyddiad trwy ddefnyddio'r opsiynau canlynol: er mwyn rhoi'r arian yn y banc, defnyddiwch y ffurflen noddi yn y pecyn adnoddau neu gallwch gysylltu â Guide Dogs/Cŵn Tywys ar **0345 143 0192**, neu anfonwch siec at Cŵn Tywys/Guide Dogs, Hillfields, Burghfield Common, Reading RG7 3YG. Quote reference: YOUTHACTION

Diolch i chi am gefnogi Cŵn Tywys/Guide Dogs

Mae rhagor o adnoddau ar gyfer ysgolion a grwpiau ieuencid ar ein gwefan www.guidedogs.org.uk/learning

